"Yr wyf fi wedi dod er mwyn i ddynion gael bywyd, a'i gael yn ei holl gyflawnder."
(Ioan 10:10)

Yn yr adnod yma mae'r Arglwydd yn dweud wrthym ei fod wedi dod i'r byd i roi bywyd cyflawn, bywyd o'r ansawdd gorau i'w bobl.

Y Bywyd Cyflawn

Bydd trafodaeth yn aml ynglŷn ag ansawdd bywyd. Byddwn yn naturiol yn poeni am bobl sydd mewn poen mawr neu'n byw gyda salwch difrifol; pobl â nam corfforol neu feddyliol; pobl mewn tlodi affwysol neu gaethiwed enbyd. Mae'r Gwaredwr wedi dod i roi bywyd yn ei gyflawnder i bob un o'i braidd, i bob un sydd yn credu ac yn ymddiried ynddo.

Bywyd yn lle colled

Colled trwy ladron

Mae Iesu'n disgrifio'i ragflaenwyr fel lladron. Mae'n debyg ei fod yn cyfeirio at arweinwyr fel y Phariseaid ac eraill oddi wedi honni bod yn Feseia. Mae'r rhain wedi dod i ladrata. Mae nhw wedi dwyn meddyliau a chalonnau pobl oddi wrth Dduw. Dyna'n union yw effaith pechod ar berson. Mae'r meddwl yn amau daioni Duw, ei gariad anfeidrol, ei ffyddlondeb, a'i air. Mae'r galon yn rhoi ei serch ar eilunod.

Mae'r gelyn yn lladd y defaid, ac mae diafol yn lladd perthynas pobl â Duw; yn lladd gobaith ac yn lladd enaid person wrth ein hamddifadu o berthynas â Duw.

Yna mae Crist yn sôn am ddinistr. Mae dinistr yn golygu colled a gwastraff ofnadwy. Dyma yw uffern. Nid peidio â bod, ond bod mewn cyflwr ofer am dragwyddoldeb, fel pren yn cael ei adael i bydru neu fetal i rydu. Dyna ganlyniad gwaith y lleidr.

Colled trwy'r gwas cyflog

Mae'r Arglwydd hefyd yn sôn am y gwas cyflog sy'n peri colled i'r praidd. Dyma 'fugail' heb ofal am fuddiannau'r defaid, a chanddo ddim meddiant ohonynt o gwbl. Mae hon yn neges glir i ni sydd yn weinidogion. Rhaid bod â gofal dros y praidd a chyflwr eu heneidiau gerbron Duw. Mae Iesu yn dweud mai Ef yw'r drws at y defaid. Perthynas agos ag Ef yw'r allwedd i fod yn fugail da, felly.

Bywyd helaeth

Mae Iesu'n darlunio'r bywyd hwn yn nhermau perthynas y bugail â'i braidd yn nyddiau'r Beibl:

Adnabyddiaeth bersonol. Mae'r bugail yn adnabod ei ddefaid wrth eu henwau. Mae hyn yn ddarlun hyfryd o'r berthynas mae'r Arglwydd yn ein galw iddi wrth ei adnabod. Nid rhif neu ystadegyn mohonom, ond unigolyn y mae Ef yn ei garu ac yn ei feithrin yn bersonol.

Arweiniad. Gwaith bugail y dyddiau hynny oedd arwain y defaid. Bydden nhw'n dilyn trwy wrando ar lais eu bugail eu hunain. Byddai'n eu harwain i mewn ac allan o'r gorlan, i dir bras ac at ddŵr. Y bugail fyddai'n dewis y llwybr bob tro. Dyna ddarlun gwych o arweiniad y Bugail Da i'w bobl ar y ddaear trwy eu bywyd.

Adnoddau. Mae Dafydd yn Salm 23 yn canmol yr Arglwydd am ei arwain at borfa fras a dŵr tawel. Gair Duw yw bwyd yr enaid i'r Cristion, ac mae Iesu'n disgrifio'r Ysbryd Glân fel 'ffrydiau o ddŵr bywiol' (Ioan 7:38).

Amddiffyn. Byddai bugail weithiau yn gorwedd ar draws y mynediad i'r gorlan, ac ef fyddai'r drws, felly. Fe oedd rhwng y praidd ac anifeiliaid gwyllt, bygythiol fel y llew neu'r arth. Byddai'n rhoi ei fywyd mewn perygl, fel petai, dros y defaid, ac mae'n ddarlun ardderchog o aberth ein Bugail drosom ar y groes. Ar ben hynny mae adnodau 28 a 29 yn dangos nad yw'r Bugail Da byth yn colli ei ddefaid nac yn eu gollwng o'i afael.

Onid dyma'r union fywyd mae pobl heddiw, fel erioed, yn chwilio amdano. Y trasiedi fawr yw bod llawer iawn o bobl yn chwilio amdano mewn arian, eiddo, pleser, yr oes newydd, pob math o grefyddau a chyltiau. Mae honiad Iesu Grist yn glir, mai ynddo Fe yn unig mae'r bywyd hwn.

Bywyd llawn

Wrth feddwl am gyflawnder y bywyd sydd yng Nghrist, mae'n amlwg ei fod yn llawer mwy na'r golled o fod hebddo. Clywais Gristion yn rhannu ei brofiad o fod ar gyffuriau cyn dod yn Gristion. Roedd eu gafael arno'n cynyddu'n raddol nes bod angen mwy a mwy dim ond i gael rhyw fath o normalrwydd mewn bywyd, gan fod y gobaith o wefr wedi diflannu'n llwyr. Roedd yn dweud bod adnabod Crist wedi rhoi gwefr llawer gwell, a mwy cyson, hyd yn oed gyda brwydrau'r bywyd Cristnogol.

"Iddo ef, sydd â'r gallu ganddo i wneud yn anhraethol well na dim y gallwn ni ei ddeisyfu na'i ddychmygu…y bo'r gogoniant…byth bythoedd! Amen" (Eff. 3:20).